Adroddiad ar gyfer

# Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth

Y Festri
Hen Gapel
Aberporth
Aberteifi
Ceredigion
SA43 2DA

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Rhiannon Fagan a Katie Evans |
| Person â chyfrifoldeb | Rhiannon Fagan a Katie Evans |
| Nifer y lleoedd | 21 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 6 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | 8am – 3pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg a Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae'n wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 13 Gorffennaf 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2018 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 16/09/2025 |
| Gwybodaeth Ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Gwella'r defnydd a wneir o drefniadau arsylwi ac asesu er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn well

A2. Sicrhau bod yr adnoddau, y gweithgareddau a'r amgylchedd dysgu yn adlewyrchu ac yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol o ran eu chwarae. Maent yn symud yn rhydd, gan ddewis ble i chwarae a beth i'w chwarae yn hyderus, er enghraifft symud rhwng chwarae â'r hambwrdd hydrefol, paentio neu chwarae gyda'r set trên. Mae'r plant sy'n dewis peidio ag ymuno â'u cyfoedion ar y mat ar gyfer amser canu a dawnsio yn arsylwi'n hapus o bell. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cynnal diddordeb am gyfnodau estynedig o amser.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynegi eu hunain yn dda ac yn cyfathrebu'n hyderus â'r ymarferwyr ac oedolion eraill o'u cwmpas, er enghraifft wrth ofyn am help i wisgo ffedog cyn paentio. Mae'r plant yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn parchu eu hymgais i gyfathrebu. Mae'r plant yn gwenu â balchder wrth iddynt gael eu canmol.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym ar ôl cyrraedd y lleoliad, gan fynd ati i chwarae ar unwaith. Mae'r rhan fwyaf yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni neu ofalwyr ac yn mwynhau mynd i'r lleoliad. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd ac yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn mynd at yr ymarferwyr i gael sicrwydd pan fyddant yn dymuno gwneud hynny, yn hawdd ac yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos ymddygiad cadarnhaol. Maent yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd yn gwisgo fel arch arwyr a chuddio rhag ei gilydd. Mae nifer yn dechrau deall anghenion eraill, yn cydweithredu'n dda wrth chwarae ac yn rhannu adnoddau yn briodol. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd eu tro yn gweithredu'r car trydanol o amgylch y ffordd. Maent yn meithrin hyder drwy gael cyfleoedd addas i wneud eu penderfyniadau eu hunain am deganau a gweithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynd ati i archwilio eu hamgylchedd yn frwdfrydig. Maent yn rhyngweithio'n dda mewn gweithgareddau ac yn mynegi eu mwynhad. Er enghraifft, maent yn sgrechian yn gyffrous wrth iddynt baratoi i gerdded i'r ysgol goedwig. Pan fyddant yn dychwelyd, byddant yn cyfarch eu cyfoedion drwy eu cofleidio ac yn dweud wrthynt eu bod wedi gweld eu heisiau. Mae'r plant yn defnyddio eu dychymyg i greu dynion bach sinsir allan o does chwarae, gan ddefnyddio caeadau poteli o feintiau gwahanol fel botymau, llygaid a thrwynau. Mae'r plant hŷn yn mwynhau creu eitemau yn yr ardal gwaith pren gan ddefnyddio llifiau, morthwylion a drylliau dan oruchwyliaeth oedolion.

Mae'r plant yn mwynhau cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac yn eu hamser eu hunain. Er

enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'r toiled yn annibynnol, ac yn golchi a sychu eu dwylo ar ôl hynny.  Maent yn paratoi eu byrbrydau â chymorth gan oedolion i ddefnyddio cyllyll i dorri ffrwythau yn ddiogel.

### Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn iawn o'u mannau cychwyn unigol. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol iawn â'r rheini o'u hamgylch, ac yn gwahodd eu cyfoedion ac ymarferwyr i ymuno â'u chwarae yn ystod sesiynau yn y goedwig. Mae bron pob plentyn yn gofyn am gymorth yn annibynnol ac maent yn hyderus yn gwrthod cymorth pan nad oes angen. Maent yn rheoli eu hemosiynau'n effeithiol ac yn gallu ymdrin ag anghydfodau yn aeddfed, heb ymyrraeth gan oedolion.

Mae sgiliau gwrando a siarad Saesneg nifer o'r plant yn gryf. Maent yn siarad â'i gilydd yn hyderus ac yn ymateb yn briodol wrth chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf o'r pant yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol drwy'r dydd. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, maent yn defnyddio patrymau cyfarwydd, ailadroddus yn hyderus i siarad am y tywydd ac i ofyn i'w gilydd sut maent yn teimlo. Mae rhai o'r plant yn mwynhau rhannu llyfrau â'r ymarferwyr. Maent yn pwyntio at luniau ac yn trafod yr hyn maent yn ei weld yn aeddfed, am gyfnodau estynedig. Mae nifer yn dewis llyfrau sydd wedi'u gosod o amgylch y lleoliad yn annibynnol ac yn dangos diddordeb mawr ynddynt. Maent yn trin llyfrau â dealltwriaeth ac yn dangos sgiliau darllen cynnar cryf. Mae'r mwyafrif o'r plant yn mwynhau gwneud marciau ac yn gweld eu bod yn gallu defnyddio'r sgiliau hyn i bwrpas. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu eu henwau ar eu paentiadau.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn mynegi eu hoff bethau a'u cas bethau am sesiynau yn y goedwig yn dda, gan ymestyn eu brawddegau'n aml er mwyn rhoi manylion ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad am eu creadigaethau yn hyderus a balch. Maent yn dangos pwrpas yn eu chwarae, er enghraifft drwy greu mwclis ar gyfer perthynas, gan ddangos awydd i blesio a dealltwriaeth o'r boddhad y byddai hynny'n ei roi.

Mae'r bron pob un o'r plant yn gyfarwydd ag arferion y lleoliad. Maent yn dilyn gweithdrefnau sefydledig yn effeithiol fel helpu i wisgo mewn dillad addas, cadw'n ddiogel ar deithiau cerdded ac wrth ymgasglu i gael cyfarwyddiadau diogelwch. O ganlyniad, mae'r plant yn meithrin ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb a hyder wrth iddynt symud yn ddidrafferth drwy'r drefn o ddydd i ddydd ac maent yn addasu'n dda i amgylchoedd gwahanol.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos gofal ac ystyriaeth o'u ffrindiau. Er enghraifft, maent yn atgoffa'i gilydd yn ystyriol i fod yn ofalus ag offer miniog. Wrth iddynt ddatblygu drwy'r lleoliad, mae bron pob un o'r plant yn datblygu annibyniaeth fel dysgwyr. Maent yn

dyfalbarhau â heriau yn eithriadol o dda, yn ymfalchïo yn eu llwyddiannau ac yn cefnogi'i gilydd yn gadarnhaol yn eu dysgu.

Mae nifer o'r plant yn dangos dealltwriaeth dda o rifau hyd at 10 o leiaf wrth baru rhifau ac eitemau. Maent yn cyfrif i ddeg yn hyderus wrth chwarae cuddio ac mae rhai plant yn cyfrif tu hwnt i ddeg â hyder sy'n datblygu. Mae bron pob un o'r plant yn deall geirfa fathemategol briodol yn hyderus wrth chwarae, fel 'mwy', 'llai', a 'llawn', wrth lenwi cynwysyddion yn y gegin fwd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dangos annibyniaeth a hyder wrth iddynt wneud penderfyniadau am beth i'w greu yn yr ardal gwaith pren. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o reolau diogelwch ac maent yn gallu eu hesbonio'n glir i oedolion. Maent yn dangos sgiliau datrys problemau rhagorol drwy arbrofi â thechnegau gwahanol, fel gosod pren ar arwyneb caled i daro hoelen â morthwyl yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu gwydnwch, meddwl ymarferol ac ymdeimlad o gyflawniad yn llwyddiannus drwy brofiadau ystyrlon, ymarferol.

Mae bron pob un o'r plant yn ymgymryd yn llawn â'u chwarae, yn enwedig yn yr awyr agored, lle mae eu sgiliau corfforol yn datblygu'n eithriadol o dda. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn dangos creadigrwydd da wrth ddringo coed gan esgus bod yn fwncïod a defnyddio boncyffion coed fel ceir. Mae bron bob un o'r plant yn ymuno'n frwdfrydig mewn sesiynau symud yn y bore. Maent yn gwrando'n astud ac yn gallu dilyn cyfarwyddiadau i stopio a rhewi. Mae bron pob un o'r plant yn cymryd risgiau yn hyderus, er enghraifft wrth ddringo i mewn i grogwelyau yn ofalus a defnyddio offer yn hyderus i lifio brigau.  Mae nifer o'r plant yn herio'i gilydd yn feddylgar i estyn eu sgiliau, er enghraifft drwy roi brigau mwy trwchus iddynt i'w llifio ar ôl i'w ffrindiau lwyddo gyda'r rhai teneuach. Mae'r mwyafrif o'r plant yn dangos rheolaeth a chyd-symud wrth redeg ar draws arwynebau anwastad.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae gan yr ymarferwyr drefniadau addas i gadw'r plant yn iach. Maent yn cynnig byrbrydau iach, llaeth neu ddŵr i'w yfed ac yn annog y plant i olchi eu dwylo. Mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn dda. Mae'r ymarferwyr yn glanhau arwynebau cyn paratoi bwyd ac ar ôl digwyddiadau, gan ddilyn gweithdrefnau rheoli heintiau da. Maent yn annog y plant i fod yn fywiog, i chwarae tu allan ac i yfed dŵr yn ystod y dydd.

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel drwy roi gweithdrefnau addas ar waith, fel cwblhau gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd, cofnodlyfrau damweiniau a rhoi cymorth cyntaf. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, sy'n golygu bod y plant a'r ymarferwyr yn gyfarwydd â'r weithdrefn gywir i'w dilyn mewn argyfwng. Mae'r ymarferwyr yn atgoffa'r plant yn rheolaidd i chware'n ddiogel ac i fod yn ymwybodol o risgiau. Mae trefniadau'r

lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder mewn unrhyw ffordd.

Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu â'r plant mewn ffordd gynnes a chyfeillgar ac yn rhyngweithio'n dda â nhw yn ystod gweithgareddau chwarae. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol. Maent yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i'r plant feithrin eu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn eistedd ac yn sgwrsio â'r plant yn ystod amser byrbryd ac yn cymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau chwarae rhydd y plant. Mae'r ymarferwyr yn sensitif i anghenion y plant ac yn gwybod pryd i ymyrryd yn effeithiol. Maent yn rhoi digon o anogaeth ac yn sicrhau eu bod yn canmol y plant mewn ffordd ystyrlon wrth iddynt ddangos caredigrwydd, rhannu adnoddau a chymryd eu tro. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i feithrin ymdeimlad o falchder yn eu cyflawniadau drwy ddathlu eu brwdfrydedd a'u hymdrechion.

Mae'r ymarferwyr yn ofalgar ac yn garedig gyda'r plant ac yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae systemau ar waith i gefnogi'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant priodol i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion y plant yn hyderus. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn trafod eu hoff bethau, eu cas bethau ac unrhyw ymddygiadau a all fod yn anghyffredin i gymeriad plentyn penodol. Maent yn rhannu ac yn dathlu cyflawniadau'r plant ymhlith ei gilydd yn llawn balchder. Er enghraifft, pan mae plentyn yn ymateb ei fod yn bresennol yn ystod amser cofrestru, dathlwyd hyn fel y tro cyntaf iddo ymateb.

Mae'r ymarferwyr yn darparu adnoddau priodol a gweithgareddau dewis rhydd sy'n hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Er enghraifft, maent yn canu caneuon Cymraeg, yn enwi lliwiau, y tywydd ac yn cyfrif i fyny at 10 yn Gymraeg.

### Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae'r ymarferwyr yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi datblygiad y plant drwy chware, archwilio a chydberthnasau. Mae'r ddarpariaeth yn yr ardal goedwig yn un o gryfderau hanfodol y lleoliad, gyda'r ymarferwyr yn dangos dealltwriaeth gref o chwarae dan arweiniad y plentyn. Maent yn gwahodd y plant i archwilio a dilyn eu diddordebau yn weithredol, sy'n annog creadigrwydd. Maent yn ennyn chwilfrydedd y plant drwy ddechrau gweithgareddau yn annibynnol ac aros iddynt ymuno a chymryd rhan, fel gweithgareddau gwnïo dail. Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n gynnes â'r plant ac yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn siarad am yr hyn maent yn ei weld, gan ddangos diddordeb gwirioneddol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i gwricwlwm y lleoliad. Maent yn fodelau iaith da yn Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn cynllunio cyfleoedd estynedig i'r

plant ganu a siarad yn Gymraeg, sy'n helpu'r plant i ddatblygu eu geirfa a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd manteisiol i'r plant ddathlu diwylliannau eraill ac amrywiaeth drwy ddathliadau drwy'r flwyddyn. Maent yn paratoi bwydydd gwahanol i'r plant eu blasu, fel hagis ar gyfer noson Burns. Fodd bynnag, mae diffyg cynrychiolaeth weladwy o ddiwylliannau gwahanol yn y ddarpariaeth barhaus, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i'r plant archwilio amrywiaeth yn ddyfnach.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi datblygiad emosiynol y plant yn effeithiol. Maent yn annog y plant i nodi eu teimladau ar y bwrdd 'teimladau' ac i siarad am eu hemosiynau. Mae'r ymarferwyr yn rhannu straeon addas sy'n helpu'r plant i fynegi a deall eu teimladau'n well.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i'r plant feithrin eu sgiliau iaith. Er enghraifft, maent yn darparu offer gwneud marciau cynnar fel brwsys paent, pensiliau a chreonau i annog y plant i fynegi eu hunain, archwilio symbolau dechrau deall gall marciau gael ystyr. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod amrywiaeth o lyfrau ffeithiol a ffuglen o safon dda ar gael sy'n cefnogi mwynhad ac adeiladu gwybodaeth y plant yn effeithiol. Maent yn eistedd gyda'r plant i rannu'r llyfrau a thrafod y cynnwys â nhw yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau y caiff y plant gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu sgiliau rhifedd. Maent yn cefnogi cyfrif cynnar drwy dasgau cyffrous fel mesur taldra planhigion. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r amgylchedd lleol i wella cyfleoedd dysgu, er enghraifft, drwy arwain y plant yn fedrus i adnabod siapiau a chyflwyno geirfa newydd yn ystod helfa siapau yn y gymuned.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol yn ofalus sy'n datblygu sgiliau corfforol y plant yn effeithiol. Yn yr ardal gwaith pren, mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant i fesur deunyddiau a dewis ofer priodol, sy'n cryfhau dealltwriaeth fathemategol a rheolaeth echddygol fanwl yn dda. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad echddygol bras yn dda drwy sesiynau cerddoriaeth a symud bywiog, gan fodelu symudiadau fel neidio a throi i'w hannog i gymryd rhan weithredol.

Yn yr arfer cryfaf, mae'r ymarferwyr yn gofyn cwestiynau agored i symud y dysgu ymlaen ac yn rhoi amser i'r plant i feddwl ac ymateb. Mae'r ymarferwyr yn cadw arsylwadau priodol am ddatblygiad y plant ond mae'r asesiadau yn bennaf yn ddisgrifiadol gyda diffyg myfyrdod ar ddysgu. Maent yn cydweithio i ddiwallu anghenion y plant ac yn dechrau defnyddio'u harsylwadau i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant. O ganlyniad, er bod anghenion dybryd y plant yn cael eu diwallu, collir cyfleoedd i ddyfnhau'r dysgu drwy ryngweithio ymatebol ac asesiad myfyriol ar adegau.

## Yr Amgylchedd: Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel. Maent wedi rhoi systemau effeithiol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg ysgrifenedig a gwiriadau dyddiol o'r ystafelloedd, sy'n lleihau neu'n dileu peryglon posibl. Mae system ddiogel er mwyn rheoli mynediad i'r lleoliad ac maent yn cofnodi manylion ymwelwyr yn gyson. Mae'r lleoliad mewn cyflwr da, yn lân ac mae arferion effeithiol ar waith er mwyn helpu i atal achosion o groesheintio, er enghraifft glanhau a diheintio adnoddau a chyfarpar. Gall y plant fynd yn uniongyrchol i'r ardal doiled, a cheir cegin ddynodedig yng nghefn yr ystafell i baratoi bwyd.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd mawr i'r plant. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd ar gael i'r plant fod yn egnïol ac yn annibynnol dan do. Mae'r adeilad yn groesawgar ac yn gyfeillgar, ac yn darparu ardaloedd a chyfleusterau addas i ddiwallu anghenion y plant. Un o arbenigeddau'r lleoliad yw'r ardal ysgol goedwig sydd yn daith fer o'r lleoliad, yn agos at y traeth. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r plant gymryd risgiau dan oruchwyliaeth drwy ddringo i lefelau gwahanol i archwilio, defnyddio'u dychymyg i greu eitemau gan ddefnyddio adnoddau naturiol ac ymlacio yn y crogwely. Yn y goedwig, gall y plant baratoi a choginio byrbrydau a diodydd poeth gan ddefnyddio'r pwll tân. Nid oes gan y prif leoliad ardal chwarae awyr agored ddynodedig. Fodd bynnag, mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gwneud defnydd da o'r gymuned bob dydd drwy ymweliadau â'r traeth a'r astroturf ar safle'r ysgol leol, ac mae'r ddau ohonynt yn daith gerdded fer.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn cynnwys adnoddau o ansawdd da i'r plant, sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi eu cam datblygu'n effeithiol. Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth addas o adnoddau sy'n helpu'r plant i feithrin amrywiaeth o sgiliau. Er enghraifft, ardal gwaith pren, cornel ddarllen â chuddfannau, ardal baentio a gweithgareddau llawr fel chwarae fferm a setiau trên. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod rhaid adnoddau naturiol fel cregyn, brigau a cherrig mân.

Mae'r plant yn cael budd o ddetholiad da o lyfrau Cymraeg a Saesneg. Mae'r ymarferwyr yn storio teganau ac adnoddau'n ddiogel a gall y plant gael gafael ar y mwyafrif ohonynt.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu tîm cryf, cydweithredol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i fyfyrio ar arferion a chynllunio'n strategol ar gyfer gwelliant parhaus. Mae eu dull yn meithrin diwylliant lle mae'r ymarferwyr yn teimlo'n hyderus i herio'i gilydd yn adeiladol, gan sicrhau y gwneir penderfyniadau er lles pennaf y lleoliad a'r plant. Mae'r arweinyddiaeth gydweithredol hon yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddatblygiad y staff a safon y ddarpariaeth i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn hyderus yn eu rolau ac maent wedi sefydlu systemau addas sy'n darparu cysondeb a diogelwch o fewn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu'r plant yn effeithiol. Maent yn cydnabod ac yn defnyddio cryfderau eu tîm, gan bennu cyfrifoldebau sy'n adlewyrchu sgiliau a diddordebau unigol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r penderfyniad i amserlenni gweithgareddau coedwig wythnosol wedi'u harwain gan ymarferwyr â hyfforddiant priodol, wedi cael dylanwad eithriadol o gadarnhaol ar ddatblygiad y plant.

Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth yn effeithlon â'r staff, gan wneud defnydd da o adroddiadau allanol i roi gwybod a gwella arferion. Mae hyn yn cyfrannu at leoliad sefydlog sy'n rhedeg yn dda lle rhoddir blaenoriaeth i anghenion y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod dogfennau allweddol, fel y Datganiad o Ddiben, yn cael eu diweddaru'n briodol ac yn sicrhau y caiff gofynion cydymffurfio eu diwallu'n ddiwyd.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus ac maent wedi nodi blaenoriaethau yn gywir, fel gwella'r ddarpariaeth dan do a sicrhau bod y staff i gyd yn cwblhau cofnodion cynllunio yn briodol. Mae'r arweinwyr yn dechrau gwneud newidiadau perthnasol, ac mae'r camau cynnar yn amlwg wrth iddynt weithio tuag at y gwelliannau hyn. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael sesiynau arfarnu a goruchwylio rheolaidd, sy'n fanteisiol ar gyfer datblygiad y staff. Maent yn darparu arweiniad a sefydlogrwydd cryf, ac mae eu hymrwymiad at wella'n barhaus yn helpu'r lleoliad i ddatblygu yn unol â'r cwricwlwm cyfredol.

Mae'r cyfathrebu'n â'r rhieni yn dda. Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth bwysig, fel manylion gweithredu a diogelu allweddol, drwy blatfform digidol defnyddiol, hysbysfwrdd a llawlyfr cynhwysfawr i rieni. Maent yn gwneud ymdrechion gwerthfawr i gryfhau cysylltiadau trosglwyddo â'r ysgol leol sy'n helpu' plant i ymgartrefu'n dda yng ngham nesaf eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (https://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant os bydd yr adroddiad hwn yn berthnasol mewn unrhyw iaith, ym mhob achos dan yr amod y caiff ei ailddefnyddio a/neu ei gyfieithu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd, ym mhob achos (gan gynnwys mewn achos o gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 18/11/2025